Cenn@d

MEDI 29 2021 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 31

# Cydnabod a diolch am gyfraniad Elfed

## Lansio tair cyfrol newydd o waith y diweddar Barchedig Elfed ap Nefydd Roberts

Dydd Sadwrn, 18 Medi, daeth cynulleidfa deilwng o gynrychiolwyr wedi eu gwahodd gan y teulu ynghyd i gapel Mynydd Seion, Abergele, ar gyfer cyfarfod i gofio a gwerthfawrogi cyfraniad nodedig y Parchedig Ddr Elfed ap Nefydd Roberts i fywyd ysbrydol Cymru. Yng nghwmni ei deulu a'i ffrindiau, lansiwyd tair cyfrol newydd o'i waith, a chafwyd cyfle i wrando ar ei eiriau, mewn gweddi a myfyrdod.

Yn dilyn gair o groeso gan y Parch Ifor ap Gwilym, cyn-weinidog Mynydd Seion (a gweinidog Elfed tra bu yno'n aelod), cafwyd cyflwyniad gan y Parch Aled Davies yn crynhoi ei hanes fel awdur a golygydd dros gyfnod o hanner can mlynedd. Cyfeiriodd ato fel cyfrannydd cyson i gylchgrawn *Cristion* a'r *Cymro* yn ogystal ag awdur nifer helaeth o gyfrolau. Cyfeiriwyd hefyd at ei ddawn arbennig i lunio gweddïau a oedd bob amser yn dod o'r galon ac yn grefftus eu trefn a'u cynnwys. Roedd hefyd yn ddiwinydd blaengar a lwyddai i siarad mewn iaith ddealladwy a chlir. Cyfeiriwyd yn arbennig at y saith cyfrol yn y gyfres 'Dehongli ...' a fu'n faes llafur i ddosbarthiadau oedolion ysgolion Sul dros gyfnod o flynyddoedd.

Yna, aed ymlaen i lansio'r cyfrolau'n swyddogol, a braint i Gyhoeddiadau'r Gair oedd cael cyflwyno set o dri llyfr i'w weddw, Dr Eiddwen Jones, ac i'w blant, Jonathan Nefydd ac Elen Mai. Cyflwynwyd copi hefyd i Trefor Lewis a fu'n casglu ac yn golygu'r gweddïau, a derbyniwyd ymddiheuriad gan y Parch Olaf a Helen Davies, a fu wrthi'n casglu ac yn golygu'r gyfrol o fyfyrdodau.




Y rhai a gyfrannodd at lansio'r llyfrau, gan gynnwys nifer o deulu'r diweddar Elfed ap Nefydd Roberts



Trefor Lewis, Brian Huw Jones, Aled Davies, Dr Eiddwen Jones ac Ifor ap Gwilym

### Tair Cyfrol

*Gwerth y Funud Dawel* oedd y gyntaf i gael sylw, ac wedi lansio'r gyfrol, cafwyd darlleniadau'n cael eu cyflwyno gan dri aelod o'r teulu, sef Jonathan Nefydd yn darllen 'Deinosoriaid Patagonia', Elen Mai Nefydd yn darllen 'Malala Yousafzai' a Dylan Rhys yn darllen 'Hollywood yn dod i Rhyl'.




Symudwyd ymlaen i lansio *Cymer fy Munudau*, sef casgliad cyflawn o'r holl weddïau a gyhoeddwyd gan Elfed ei hun dros gyfnod o 50 mlynedd. Dyma weddïau a ysgrifennwyd ganddo'n bersonol, a gwelir dawn y crefftwr gofalus ym mhob un ohonynt. Cyfeiriwyd hefyd at yr ysgrif gyfoethog ganddo ar ddechrau'r gyfrol, sef 'Y gelfyddyd o weddïo'. Yn dilyn hyn, braint oedd clywed ei wyresau'n darllen gweddïau eu taid. Diolch i Holly a Lili Nefydd am rannu gweddi 'Addoli Duw' a

(parhad ar y dudalen nesaf)

Malala Yousafzai
Tudalen 3


Lle i enaid gael llonydd
Tudalen 4

A dyma fi draw dros y lli
Tudalen 5

## Cydnabod a diolch am gyfraniad Elfed


*(parhad o dudalen 1)*

Gwen Nefydd am rannu gweddi'n dwyn y teitl 'Ysbryd diolchgar'. Hefyd, cafwyd gweddïau o'r casgliad yn cael eu hoffrymu gan Trefor Lewis a Brian Huw Jones.




Eitem hyfryd arall oedd clywed Siriol Elin yn canu un o hoff ganeuon Elfed, sef 'Yn dy gwmni Di' gan Robat Arwyn.

Y drydedd gyfrol i gael ei lansio oedd *Derbyn a Dilyn Iesu*, sef cwrs ar gyfer cymunwyr ifanc / dosbarth derbyn. Dyma adnodd ar gyfer gweinidogion ac arweinwyr sy'n llawlyfr hwylus i baratoi pobl ifanc ar gyfer dod yn aelodau cyflawn o eglwys Iesu Grist. Mae'r themâu a geir yn y gyfrol yn cynnwys: Pam cael eich derbyn?, Pam credu yn Nuw?, Pwy ydi Iesu Grist?, Y Groes a'r Atgyfodiad, Pwy ydi'r Ysbryd Glân?, Pam yr Eglwys?, Ydi'r Beibl yn wir?, Ydi gweddïo'n bwysig?, Addoli a'r Sacramentau, a Byw'r bywyd Cristnogol.




Yn ei ragair i'r gyfrol, meddai Elfed: 'Tasg eithriadol bwysig, ac eto tasg hynod anodd, yw cynnal Dosbarth Derbyn neu Ddosbarth Cymunwyr Ifanc. Amcan dosbarth yw cynorthwyo rhai sydd wedi dod i oed i benderfynu drostynt eu hunain a ydynt yn dymuno dod yn aelodau cyflawn o'r Eglwys ai peidio. Hwy eu hunain sydd i benderfynu a ydynt yn barod i wneud proffes o ffydd yn Iesu Grist a dod yn rhan lawn o deulu'r ffydd, nid eu rhieni na neb arall o'r teulu sydd i benderfynu drostynt!' Mae'n gyfrol hwylus, ac eto'n un hawdd iawn troi ati. Diolchwyd am lafur Elfed ar hyd y blynyddoedd yn paratoi'r cyfrolau pwysig hyn.

Yn dilyn hyn, croesawyd Dr Eiddwen Jones, gweddw Elfed ymlaen i gyflwyno gair byr o ddiolch am fywyd a gwaith Elfed. Diweddwyd y cyfarfod gan weinidog newydd yr eglwys, y Parch Brian Huw Jones, cyn i bawb fynd trwodd i'r festri i gael paned a chyfle i brynu'r llyfrau.

Gweithred arall y llwyddwyd i'w chyflawni yn ystod y cyfarfod, a hynny ar ran *Cenn@d*, oedd cyflwyno copi o gyfrol myfyrdodau Elfed i Mr John Eric Hughes, fel gwobr am ddod yn gyntaf am gyfansoddi emyn yn yr Eisteddfod Rithiol a gynhaliwyd gennym fis Awst eleni. Mae copïau hefyd ar y ffordd i'r Wyddgrug a Chaerdydd ar gyfer yr enillwyr eraill.




Mae Coleg Trefeca yn falch o gynnig Gwyliau Teuluol dros Wyliau Ysgolion Hanner Tymor yr Hydref (25/10 hyd 31/10/2021). Estynnir gwahoddiad i rieni a'u plant i fwynhau Trefeca, Bannau Brycheiniog a'r holl weithgareddau addas i deuluoedd sydd gerllaw. Gellir hefyd treulio'r amser yn mwynhau gerddi hyfryd Trefeca yn yr awyr iach a chwarae gemau pêl, badminton a chroce!

Cynigir 'Llety Ystafell yn Unig' ar gyfer hyd at 2 oedolyn a 2 blentyn am £40 y noson. Pe byddech am ddefnydd o'r llety ar eich cyfer chi a'ch teulu'n unig yn ystod Gwyliau Ysgol Hanner Tymor yr Hydref 2021, mae'r gost yn dechrau o £140 y noson. Cei'r mynediad i'r llety o 3.00 o gloch prynhawn Llun 25 Hydref hyd at 10.00 bore Gwener 31 Hydref. Mae'r cynnig arbennig hwn ar gael yn unig ar gyfer Gweinidogion, Gweithwyr, Blaenoriaid ac Aelodau Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Mae pob ystafell wely ag ystafell ymolchi a bydd gennych ddefnydd o gegin fechan yn y bloc llety sy'n cynnig cyfleusterau gwneud te/coffi, popty micro-don, peiriant tostio ac offer barbeciw. Cynigir Wi-Fi am ddim yn y bloc llety. Bydd y Capel Bach yn agored ar gyfer gweddi bersonol.

Caniateir o ddydd Mercher 29 Hydref mynediad i'r lolfa, yr ystafell deledu a'r Amgueddfa / Arddangosfa. Os am archebu llety, anfonwch e-bost at Mair a Richard coleg.trefeca@ebcpcw.cymru mailto:coleg.trefeca@ebcpcw.cymru neu ffoniwch 01874 711423. Mwynhewch eich gwyliau yng Ngholeg Trefeca.



